# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 11 Tachwedd 2020

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15-09.45)

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.45)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.45)

### 2.1 Llythyr gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ynghylch: Sector Gwallt a Harddwch

(Tudalennau 1 - 4)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-22-20- Papur i'w nodi

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Covid-19: Adferiad - Craffu ar waith Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

(09.45-10.55) (Tudalennau 5 - 32)

Ken Skates AS, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

Simon Jones, Cyfarwyddwr ar gyfer Seilwaith yr Economi, Llywodraeth Cymru

Sioned Evans, Cyfarwyddwr, Busnes a Rhanbarthau, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-22-20-Paper 2: Papur Briffio

## Egwyl (10.55-11.10)

## 4 Banc Datblygu Cymru: Adroddiad Blynyddol 2019-20, Ymateb Covid-19 a Blaenoriaethau'r Dyfodol

(11.10-12.10) (Tudalennau 33 - 45)

Gareth Bullock, Cadeirydd Bwrdd Banc Datblygu Cymru

Giles Thorley, Prif Weithredwr

David Staziker, Prif Swyddog Cyllid

Rhian Elston, Cyfarwyddwr Buddsodd

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-22-20- Papur 3: Papur Briffio

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(12.10)

## 6 Preifat

(12.10-12.20)

Ystyried tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

Eitem 2.1

**Ken Skates AS/MS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

3 Tachwedd 2020

Annwyl Russell,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Hydref ynghylch y sector gwallt a harddwch, ac effaith y cyfyngiadau a nodwyd gan y Ffederasiwn Gwallt a Harddwch Cenedlaethol.

Rydym yn ymwybodol iawn o'r amgylchiadau eithriadol o anodd ac ansicr mae busnesau'n eu hwynebu ar hyn o bryd, yn enwedig y diwydiannau trin gwallt a harddwch, ac rydym wedi ymrwymo'n llwyr i ddarparu'r cymorth a'r sicrwydd sydd eu hangen ar fusnesau.

Gyda'r coronafeirws yn lledaenu'n gyflym ym mhob rhan o Gymru, nid oes dewis ond gweithredu'n awr, cyn iddo barhau i ledaenu, a chyn i'r GIG gael ei lethu. Dyma pam rydym wedi cymryd camau byr, llym a sydyn – cyfnod atal byr cenedlaethol – o 6pm ar 23 Hydref i ddydd Llun 9 Tachwedd. Mae'n berthnasol i bawb sy'n byw yng Nghymru a bydd yn disodli'r cyfyngiadau lleol sydd mewn grym mewn rhai rhannau o'r wlad.

Y cyngor gan ein cynghorwyr meddygol a gwyddonol yw y bydd y cyfnod atal byr, sydyn hwn yn rhoi cyfle inni bwyso a mesur y sefyllfa a sicrhau bod gan y GIG y gallu i ymateb i'r pandemig a phwysau eraill y gaeaf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn cydnabod yr ymdrechion enfawr mae busnesau wedi eu gwneud i sicrhau eu bod yn fannau diogel. Nid yw'r gofyniad hwn i gau yn ystod y "cyfnod atal byr" yn dibrisio'r ymdrechion hynny. Ond ar hyn o bryd, mae lleihau unrhyw beth sy'n cyfrannu at ledaeniad y feirws yn bwysig, a dyna pam rydym yn ei gwneud yn ofynnol i rai busnesau gau dros dro. Wrth weithredu, iechyd a lles pobl yw ein blaenoriaeth.

Mewn ymateb i hyn ac yn unol â'n hegwyddorion o ran darparu rhagor o gymorth, rydym wedi creu Cam 3 gwell gwerth bron £300 miliwn ar gyfer ein Cronfa Cadernid Economaidd (ERF), ar gyfer Cymru'n unig, sy'n cynnwys cymorth ychwanegol gwerth £150 miliwn i fusnesau y mae'r cyfnod atal byr yn effeithio arnynt.

Mae'r sector gwasanaethau personol cyswllt agos yn sector amrywiol. Mae ein canllawiau'n cynnwys trinwyr gwallt a barbwyr; therapyddion harddwch; artistiaid coluro; technegwyr gwasanaethau ewinedd; ymarferwyr estheteg, triniaethau holistig, lles ac ati; ymarferwyr aciwbigo ac electroserio a therapyddion tylino, gan gynnwys therapyddion chwaraeon a thylino clinigol. Fodd bynnag, er bod eu gweithgareddau'n amrywiol, mae risgiau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo COVID-19 yn y lleoliadau hyn yn debyg.

Gallwn roi sicrwydd i'r Pwyllgor nad oes unrhyw ragfarn ddiarwybod o ran rhyw o fewn Llywodraeth Cymru. Mewn gwirionedd roedd salonau trin gwallt a siopau barbwr ymhlith y busnesau dianghenraid cyntaf i gael eu hailagor yng Nghymru ar ôl y cyfnod clo cenedlaethol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu pobl, ac wedi seilio ei dull ar gyfer ailagor busnesau ar y cyngor gwyddonol a meddygol diweddaraf ar y risg gan leoliadau penodol, i ba raddau y mae mesurau lliniaru risg eraill ar gael ac ar waith, a lefel y gweithgareddau sy'n arwain at drosglwyddo'r clefyd.

Rydym wedi cael cyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd yr amgylchedd sy'n cadarnhau bod busnesau gwasanaeth cyswllt agos yn peri risg sylweddol o drosglwyddo'r feirws, os nad ydynt yn cydymffurfio â'u dyletswydd i gymryd camau rhesymol o dan Reoliad 12 i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws cymaint ag y bo modd. Y rheswm am hyn yw eu bod yn agos at eu cleientiaid yn gorfforol ac yn gallu treulio cyfnodau hir o fewn yr ardal risg uchel o amgylch yr wyneb.

Rydym wedi dweud, ar wahân i driniaethau ar yr wyneb, y gellir darparu'r gwasanaethau cyswllt agosaf, gan gynnwys trin gwallt a thorri gwallt, yn ddiogel wrth wisgo masg Math II a feisor clir yn ystod yr argyfwng COVID-19. Roedd hyn yn seiliedig ar gyngor gwyddonol mai cyfyngedig yw effaith feisorau ar eu pennau eu hunain o ran atal y feirws rhag lledaenu, ac y dylai ymarferwyr gwasanaethau cyswllt agos wisgo masg Math II (i reoli'r feirws yn y tarddiad – i amddiffyn y cleient rhag yr ymarferydd) a feisor clir (i amddiffyn yr ymarferydd rhag y cleient). Mae'r eitemau hyn yn gyfarpar diogelu personol anghlinigol ac maent ar gael yn helaeth.

Rydym wedi bod yn glir bod triniaethau o amgylch yr wyneb yn driniaethau risg uchel gan eu bod fel arfer yn cael eu cynnal ar flaen yr wyneb lle mae aerosolau a diferion o'r trwyn a'r geg, efallai nad ydynt yn weladwy, yn gallu bod yn bresennol ac yn peri perygl i'r ymarferydd gan y cleient ac fel arall, ac felly, mae'n anodd iawn cynnal triniaethau o'r fath yn ddiogel heb y radd briodol o gyfarparu diogelu personol, sef Masg Wyneb Llawfeddygol sy'n Gwrthsefyll Hylif (FRSM) ynghyd ag offer diogelu'r llygaid (gogls neu feisor wyneb llawn).

Pan fydd yn cael ei ddefnyddio'n gywir, mae masg sy'n gwrthsefyll hylifau yn lleihau'r gronynnau feirysol sy'n cael eu gwasgaru yn yr atmosffer. Mae'n rhoi rhywfaint o amddiffyniad i'r rhai sy'n agos at y gwisgwr ac i bawb yn yr ystafell neu'r gofod, gan gynnwys pawb arall sy'n gwisgo masg, gan ei fod yn lleihau lefel gyffredinol y gronynnau COVID-19 sy'n cylchredeg yn yr awyr. Mae'r feisor yn rhoi rhywfaint o amddiffyniad i'r sawl sy'n ei wisgo drwy atal sblasio/diferion ac ati rhag cyrraedd pilenni y llygaid.

Rydym wedi bod yn ymwybodol iawn o'r ffaith bod triniaethau o amgylch yr wyneb yn rhan sylweddol o'r triniaethau a gynigir gan y diwydiant harddwch; dyna pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwahardd darparu'r triniaethau hyn. Fodd bynnag, ar sail cyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, rydym wedi argymell yn gryf beidio â chynnal y triniaethau hyn, oni bai bod yr ymarferydd yn gwisgo cyfarpar diogelu personol o radd briodol – Masg Wyneb Llawfeddygol sy'n Gwrthsefyll Hylifau (FRSM) ynghyd â chyfarparu diogelu'r llygaid (gogls neu feisor wyneb llawn); wedi cael yr hyfforddiant priodol ar ddefnyddio'r cyfarpar hwn ac wedi derbyn hyfforddiant ar ragofalon rheoli heintiau safonol.


Dros yr ychydig fisoedd diwethaf mae Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd wedi gweithio'n ddi-flin gyda busnesau lleol i'w helpu i gydymffurfio ac wedi gweithredu'n gymesur, gan gymryd camau gorfodi ar ffurf Hysbysiadau Gwella neu Gau fel yr opsiwn olaf.

Mae adborth gan swyddogion gorfodi yn nodi mai dim ond mewn nifer fach o achosion y bu angen cymryd camau gorfodi. O'r 54 o hysbysiadau cau adeiladau a gyflwynwyd ers 8 Awst dim ond chwech (11%) a gafodd eu cyflwyno i wasanaethau personol cyswllt agos. Yn y sector trin gwallt a thorri gwallt y bu'r rhan fwyaf o'r diffyg cydymffurfio a nodwyd. Mae 193 o hysbysiadau gwella safle wedi cael eu cyflwyno ers 8 Awst ac roedd 45 ohonynt (23%) wedi eu cyflwyno i wasanaethau personol cyswllt agos.

Mae ein swyddogion wedi cynnal trafodaethau â'r cyrff cynghori'r gwasanaethau cyswllt agos, gan gynnwys y Ffederasiwn Gwallt a Harddwch Cenedlaethol, ynghylch y ffordd rydym wedi gweithredu yng Nghymru.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn cael eu hadolygu'n barhaus ac yn cael eu diweddaru i adlewyrchu unrhyw gyfyngiadau newydd neu gyfyngiadau sydd wedi newid.  Rydym wrthi'n adolygu'r canllawiau i gefnogi ailagor y busnesau hyn ar 9 Tachwedd a byddwn yn ymgynghori ynghylch y cynnwys â chyrff cynghori'r gwasanaethau cyswllt agos.

Yn gywir,



**Ken Skates AS/MS**
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth
a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon